Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg Orffennaf 2016

Presennol – Gareth Wynne, Cadeirydd, Gwawr Jones, Meirion Owen, Janet Charlton,Nick Corney, Siân Godbert, Marion Betteney, Gareth Parry,Cyng Elisabeth Roberts, Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriadau, Jim Boughton,Terry Bullock, Karen Pugh.

Datgan diddordeb . Datganwyd diddordeb yng nghofnod 2[a] gan Siân Godbert a gadawodd y cyfarfod tra bu'r mater yn cael ei drafod.

Ethol Cadeirydd/Is Gadeirydd
Penderfynwyd yn unfrydol i ethol Gareth Wynne yn Gadeirydd a Gwawr Jones yn Is Gadeirydd y Cyngor.

Cofnodion, Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Fehefin 2016.

(1)Yr Heddlu
Nid oedd yr heddlu yn bresennol

[1.1] Cyfoeth Naturiol Cymru
Mynychwyd y cyfarfod gan Mr Kim Burnham [CNC] ac atebodd amryw o gwestiynau gan gynnwys nad oedd yn debygol y byddai gweithio penwythnosau yn bosib yng nghoedwig Gwydr gan fod CNC yn wynebu toriad o 25% yn eu cyllideb.Golyga hyn yn anffodus fod llai o adnoddau ar gael.

[1.2] Cae Chwarae Pentre' Du/Byrddau Picnic
Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Casglu Arian/Y Rhaeadr Ewynnol
Dywedodd y clerc nad oedd Loomis,y cwmni casglu arian, wedi cysylltu yn dilyn eu hymweliad a'r Rhaeadr Ewynnol; yn anffodus felly nid yw'r cwmni yn debyg o fod â diddordeb gyda threfniant i gasglu arian.

[1.4] Nadolig Betws-y-Coed/ Mynediad i Gae Llan
Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.5] Cais i Gael Bin Ysbwriel
Gan nodi bod y Cyng Sir yn gwrthod darparu bin, cytunodd y Cyng Elisabeth Roberts I ddilyn y mater ymlaen.

[1.6] Llwybr Tan Dinas/ Byrddau ar gyfer yr Anabl
Cytunodd y Cyng Gareth Wynne i gael golwg faint o fyrddau sydd ar gael i'r anabl.

[1.7] Goleuadau Newydd i Lwyfan y Neuadd
Dywedodd y clerc bod y mater wedi ei adael gyda Haf Jones o'r Cyngor

[1.8] Cytundeb Rheoli Cae Llan
Y clerc i drefnu cyfarfod gyda Allan Sharpe Cyngor BS Conwy yn ogystal ar Cyng Gareth Wynne ar Cyng Elisabeth Roberts.

[1.9] Ffederaleiddio Ysgolion
Cytunodd y Cyng Gareth Wynne gynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd Llywodraethwyr newydd sydd yn cynnwys ysgolion; Betws-y-Coed, Dolwyddelan, a Chapel Garmon.

[2] Tynnu Dŵr/Llyn Elsie
Nodwyd bod y mater yn parhau.

Y Brif Agenda
[2.1] Materion Cynllunio
[a] Trosi ac ymestyn adeilad fferm i ffurfio tŷ newydd, Ty'n-y-Bryn, Pentre' Felin, Betws-y-Coed
[b]Dymchwel ystafell haul a chodi estyniad cefn, Dola, Dolydd Terrace, Betws-y-Coed.
[c] Adeiladu estyniad unllawr yn y cefn, Awelfryn, 2 Miners Bridge, Pentre' Du, Betws-y-Coed.
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r tri cais uchod

[2.2] Materion Ariannol
(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddosbarthwyd) a wnaed ym mis Mehefin 2016.
(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddosbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mehefin 2016.

[2.3] Materion Amrywiol
Y clerc i ddilyn y materion canlynol ymlaen;
[a]Carreg palmant yn rhydd gyferbyn a siop Crefftau'r Pentref/ Croesfan y cyhoedd
[b]Canghennau yn gogwyddo i'r llwybr o Bont-y-Pair tua Chae Llan ac ymlaen.
[c] Angen chwynnu'r palmant gyferbyn a'r Bwrdd Hysbysu.

[2.4]Materion Traffig/Pont-yr-Afanc [b] Cais i osod mainc o flaen y Swyddfa Bost
Cytunodd y Cyng Elisabeth Roberts i ddilyn y materion ymlaen.

[2.5] Llwybr Cyhoeddus Rhif 24 ger Craiglan
Y clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir bod beicwyr yn creu perygl i'r cyhoedd trwy ddod i'r ffordd o'r llwybr yn llawer rhy gyflym.

[2.6] Gŵyl Flodau Eglwys Saint Mihangel/ Medi 9fed -11eg
Cytunodd y Cyng Marion Betteney I gyflwyno blodau i'r ŵyl ar ran y Cyngor Cymuned.

Cadeirydd_____